

# Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru - Craffu Cyffredinol

Awst 2024

## Cyflwyniad

- Mae Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn darparu gwasanaethau gofal brys ac argyfwng yng Nghymru, gan gynnwys ymateb brys i alwadau 999, cludiant cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys a chymorth drwy wasanaeth 111 Cymru. Mae ei gwasanaeth yn amrywio o ofal integredig i barodrwydd am argyfwng, gan wneud cyfraniad allweddol at gynnal llif cleifion yn effeithlon drwy'r system gofal iechyd.<sup>1</sup>
- Ar 15 Mai 2024, cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Prif Weithredwr, Cadeirydd a Chyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth i archwilio rôl y gwasanaeth ambiwlans o fewn y system gofal iechyd yng Nghymru. Roedd y sesiwn hon yn rhan o ystyriaeth barhaus y Pwyllgor i ffactorau sy'n dylanwadu ar lif cleifion drwy ysbytai.
- Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i gynrychiolwyr Gwasanaeth Ambiwllans Cymru am eu cydweithrediad.

<sup>1</sup>O 1 Ebrill 2024 ymlaen, yn sgil [Gorchymyn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru \(Sefydlu\) \(Diwygio\) 2024](#) cafodd enw'r gwasanaeth e newid i Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru.



# 1. Y cefndir

## Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024-27 Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

---

4. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn gynllun sy'n manylu ar yr hyn y mae Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn bwriadu ei gyflawni drwy ei gwasanaethau yn y tair blynedd nesaf. Mae'n ddogfen y mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn orfodol i holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru.
5. Y Cynllun Tymor Canolig Integredig (y Cynllun) mwyaf diweddar i gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd yw'r un ar gyfer 2024-27.
6. Mae Cynllun 2024-27 yn pwysleisio'r angen dybryd am newid i ddiwallu anghenion cleifion yn fwy effeithiol. Mae'n cydnabod aneffeithlonrwydd yn y prosesau presennol, sy'n arwain at niwed i gleifion a rhwystredigaeth i staff. Mae'n canolbwyntio ar wella profiad y claf a sicrhau y darperir y gofal iawn ar yr amser iawn yn y lle iawn.
7. Mae'n nodi tair prif flaenoriaeth:
  - Trawsnewid darpariaeth gofal gyda phartneriaid i ddarparu gofal priodol bob tro, gan leihau niwed;
  - Gwella profiad staff yn y gweithle er mwyn eu galluogi i berfformio ar eu gorau;
  - Darparu gwerth a chynaliadwyedd eithriadol o ran cyllid, yr amgylchedd a gofal iechyd.
8. Mae'n nodi pwysau digynsail ar draws y system gofal iechyd yn dilyn y pandemig Covid-19, yn ogystal ag effaith gweithredu diwydiannol ar draws y GIG. Mae'n dweud bod y pwysau a'r galw am wasanaethau meddygol brys (EMS) wedi bod yn arbennig o heriol, gyda chynnydd sylweddol yn y galwadau mwyaf difrifol. Mae'n nodi bod oedi mewn ysbytai wedi bod yn uwch nag erioed, gan arwain at amseroedd ymateb arafach i gleifion.

## Strategaeth hirdymor

---

9. Mae Cynllun 2024-2027 yn cyfeirio at strategaeth hirdymor yr Ymddiriedolaeth, sef 'Cyflawni Rhagoriaeth. Ein gweledigaeth ar gyfer 2030', a

gytunwyd yn 2019. Mae'r strategaeth hirdymor yn nodi sut y mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu trawsnewid o fod yn wasanaeth ambiwlans 'traddodiadol' i fod yn ddarparwr gofal o ansawdd uchel, gyda rhagor o bwyslais ar ofal yn nes at adref.

**10.** Cyfeiria'r ddogfen at uchelgais 'Gwrthdroi'r Triongl' sydd gan Wasanaeth Ambiwllans Cymru, sy'n cynnwys cyfres o newidiadau penodol gyda'r nod o drawsnewid y gwasanaeth a gwella gofal cleifion. Mae'n cynnwys recriwtio staff ychwanegol, mentrau i wella triniaethau, fel penodi ymarferwyr iechyd meddwl a dyblu capasiti'r ddesg cymorth glinigol, a gweithredu system SALUS (system ddigidol a fydd yn cael ei gweithredu o fewn y gwasanaeth 111 i wella cyfraddau ymateb).

### **Blaenoriaethau uniongyrchol**

---

**11.** Mae Cynllun 2024-2027 yn myfyrio ar brif gyflawniadau Gwasanaeth Ambiwllans Cymru yn 2023/24. Mae'n nodi bod GIG 111 Cymru wedi dod yn wasanaeth cenedlaethol; bod capasiti a gallu asesu clinigol o bell wedi cynyddu; bod gwasanaeth Uned Ymateb Aciwtedd Uchel Cymru (CHARU) wedi'i weithredu; bod yr ymarferwyr iechyd meddwl cyntaf wedi'u penodi; a bod capasiti rheng flaen 999 wedi cynyddu.

**12.** Mae'n nodi hefyd fod heriau allweddol yn ymwneud â'r gweithlu, cyllid a thechnoleg ddigidol.

**13.** O ran blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer y flwyddyn hon, dywed mai ffocws Gwasanaeth Ambiwllans Cymru fydd gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaethau y mae'n eu darparu, gan barhau i ganolbwyntio ar lesiant ei staff. Nod yr Ymddiriedolaeth yw tyfu i ateb y galw (gyda chynnydd pellach yn nifer y staff Gwasanaethau Meddygol Brys rheng flaen), a thrawsnewid ei gwasanaethau i ychwanegu gwerth at y system iechyd a gofal (fel datblygu rolau arbenigol).

## **2. Perfformiad**

### **Cyflwr y Gwasanaeth**

---

Mae Gwasanaeth Ambiwllans Cymru yn sefydliad cynhwysfawr, sy'n darparu gwasanaethau gofal brys ac argyfwng, yn ogystal â chludiant i gleifion sydd wedi'i gynllunio, nad yw'n frys.

- 14.** Buom yn trafod cyflwr presennol Gwasanaeth Ambiwylans Cymru, gan gynnwys ei heriau mwyaf, gyda'i brif swyddogion. Gofynnwn ni a fyddai'n deg disgrifio'r gwasanaeth fel un 'mewn argyfwng', o gofio bod disgrifiad o'r fath yn cael ei ddefnyddio'n aml mewn adroddiadau ar y cyfryngau.
- 15.** Dywedodd y Prif Weithredwr, Jason Killens mai'r her unigol fwyaf i'r gwasanaeth yw oedi wrth drosglwyddo mewn adrannau brys, sy'n deillio o bwysau ehangach yn y system gofal brys ac argyfwng.
- 16.** Dywedodd wrthym nad oedd y gwasanaeth ambiwlans mewn argyfwng, er gwaethaf pwysau sylweddol, yn enwedig yn y gwasanaeth meddygol brys. Dywedodd fod y sefydliad yn fwy, yn fwy effeithlon ac yn fwy gwydn nag erioed, gan ymateb yn gynt i achosion sy'n peryglu bywyd. Gwrthododd y term "argyfwng" am fod hynny'n awgrymu diffyg rheolaeth gan y gwasanaeth. Dywedodd wrthym fod y gwasanaeth ambiwlans, yn ymwybodol o'r heriau a'r pwyntiau pwysau, bod ganddo afael gref a rheolaeth o'r hyn sy'n digwydd a'i fod yn bwriadu gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ran ei hun o'r system gyffredinol.
- 17.** Dywedodd fod y gwasanaeth, ers iddo gynnal adolygiad o alw a chapasiti yn 2018-19, wedi recriwtio tua 250 o staff ychwanegol. Yn dilyn adolygiad cenedlaethol o'r rhestr ddyletswyddau, gwnaeth newidiadau i'w holl restrau, a oedd wedi gwella effeithlonrwydd, gan gyfateb i 72 aelod arall o staff, a bod gwasanaethau cynghori o bell wedi cynyddu, gyda chyfraddau gwasanaeth dyddiol yn cynyddu o lai na 10 y cant i dros 15 y cant. Ymhellach, roedd y garfan uwch ymarferwyr parafeddygol wedi ehangu, ac roedd nifer y cerbydau lluosog a anfonwyd at bob achos hefyd wedi lleihau.
- 18.** Aeth ymlaen i ddweud bod y gwasanaeth, y tu hwnt i'r adolygiad cychwynnol hwnnw, wedi tyfu gan 100 o swyddi rheng flaen ychwanegol, wedi dyblu maint y ddesg gymorth glinigol, ac wedi parhau i wella effeithlonrwydd a gwydnwch.
- 19.** Dywedodd y Cadeirydd, Colin Dennis, wrthym fod y gwasanaeth yn sefydlog yn ariannol gyda chyllideb gytbwys a llywodraethu cryf, fel y dengys ei asesiad strwythuredig blynyddol a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru.

## **Amser Ymateb**

---

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y targed a ganlyn o ran amseroedd ymateb ambiwlansys:

- 65% o'r holl alwadau 'coch' sy'n cael eu categoreiddio fel rhai 'lle mae bywyd yn y fantol', i gael ymateb brys o fewn 8 munud ar sail Cymru gyfan.

**20.** Dywed yr Ymddiriedolaeth ei bod yn gweithio tuag at y targed hwn drwy weithio, er enghraifft, i leihau absenoldeb oherwydd salwch a recriwtio rhagor o staff rheng flaen. Ym mis Ebrill 2024, fodd bynnag, roedd yn wynebu heriau sylweddol yn ei amseroedd ymateb brys, gyda pherfformiad gwirioneddol o 45.8 y cant o alwadau 'sy'n peryglu bywyd' yn derbyn ymateb brys o fewn 8 munud yn erbyn targed o 65 y cant.

**21.** Fe wnaethom herio'r Ymddiriedolaeth ar ei pherfformiad ymateb 8 munud a'r strategaethau roedd ganddi ar waith i wella'r perfformiad hwn. Roedd Jason Killens yn derbyn fod canfyddiad y cyhoedd o'r gwasanaeth ambiwlans yn seiliedig yn bennaf ar amseroedd ymateb, gan ddweud y bydd defnyddwyr y gwasanaeth ar draws Cymru yn mesur y gwasanaeth ac yn mesur ei lwyddiant wrth ba mor gyflym y mae'n troi i fyny. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn methu ei tharged ymateb 8 munud, ei ddadl oedd bod y gwasanaeth, mewn ychydig dros hanner yr achosion o alwadau 999 sydd wedi'u categoreiddio fel rhai lle mae bywyd yn y fantol, yn cyrraedd rhywbryd rhwng wyth a 10 munud. Dywedodd fod hyn yn teimlo'n iawn wrth gael ei ystyried yng nghyd-destun daearyddiaeth a rhwydwaith ffyrdd Cymru, maint y fflyd a phwysau systemig ehangach.

**22.** Yn ogystal â hyn, dywedodd Colin Dennis wrthym y gall y cyhoedd ddibynnu fwyfwy ar y gwasanaeth ambiwlans i ddarparu gofal amserol wrth iddo drawsnewid i ddarparu lefelau uwch o ofal clinigol yn hytrach na dim ond bod yn wasanaeth cludiant. Yma, tynnodd sylw at y ffaith bod y gwasanaeth yn ehangu ei gefnogaeth ar gyfer anghenion penodol, gan gynnwys cwmpo, dementia ac iechyd meddwl.

**23.** Cydnabu nad yw'r gwasanaeth yn aml yn cyrraedd y targed wyth munud ar gyfer cyfraddau ymateb coch, ond pwysleisiodd ei fod yn cyrraedd y targedau naw a deg munud ar gyfer argyfyngau sy'n peryglu bywyd. Roedd ei berfformiad, meddai, yn gyfartal â, neu'n well na'r gwasanaethau ambiwlans eraill yn y DU.

**24.** Wrth edrych ymlaen, dywedodd ei fod yn obeithiol y gallai'r gwasanaeth ddarparu lefel well o ofal i'r gymuned, ond ei fod yn llai ffyddiog y byddai newidiadau dramatig yn y cyfraddau ymateb coch, neu'r cyfraddau lle mae ambiwlansys yn cael eu troi o gwmpas pan maen nhw'n cyrraedd ysbytai.

## Pontio i fod yn ddarparwr y tu allan i'r ysbyty

---

- 25.** Mae Cynllun 2024-2027 yn cyfeirio at strategaeth hirdymor yr Ymddiriedolaeth, sef 'Cyflawni Rhagoriaeth, Ein gweledigaeth ar gyfer 2030', a gytunwyd yn 2019. Mae'r strategaeth hirdymor yn nodi sut y mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu trawsnewid o fod yn wasanaeth ambiwlans 'traddodiadol' i fod yn ddarparwr gofal o ansawdd uchel, gyda rhagor o bwyslais ar ofal yn nes at adref.
- 26.** Buom yn trafod gyda'r Ymddiriedolaeth y cynnydd a wneir yn y maes hwn. Clywsom gan Colin Dennis fod y gweithlu ambiwlans yn cael ei uwchsgilio'n sylweddol fel bod gan barafeddygon bellach gymwysterau gradd tair blynedd neu hyfforddiant cyfatebol yn y swydd, gyda pharafeddygon uwch yn meddu ar raddau Meistr a hawliau rhagnodi. Roedd yr uwchsgilio hwn, meddai, yn symud criwiau ambiwlans oddi wrth bod yn ddim ond cludwyr cleifion i fod yn ddarparwyr cymorth clinigol.
- 27.** Dywedodd wrthym fod ffocws hefyd ar ddatblygu rhagor o gefnogaeth glinigol o fewn canolfannau galwadau, gan ganiatáu gwell system frysbenneu. Roedd hyn, yn ei dro, yn golygu nad oedd angen cludo pob claf i ysbytai; ac y gallai parafeddygon, nyrsys neu glinigwyr eraill ddarparu cyngor priodol.
- 28.** Tynnwyd sylw gan Andy Swinburn, Cyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth, at y ffaith bod natur cyflwyniadau cleifion wedi newid. Dywedodd fod mwyafrif y galwadau 999 bellach yn cynnwys problemau gofal brys yn hytrach nag argyfyngau sy'n peryglu bywyd, ac nad cludiant brys i ysbyty oedd y ffordd gywir, o reidrwydd. o reoli eu hanghenion. Yn hytrach, dywedodd wrthym y gallai'r gwasanaeth ambiwlans, drwy uwchsgilio ei staff, reoli cymaint o bobl â phosibl yn y gymuned a oedd, yn ei dro, yn rhyddhau capasiti i ymateb i'r cleifion hynny ag argyfwng sy'n peryglu bywyd a oedd angen eu trosglwyddo i adran achosion brys.
- 29.** Buom yn trafod yn fyr y pwysau sy'n wynebu gofal sylfaenol ac a oedd y dull gweithredu gan y gwasanaeth ambiwlans i gynnig rhagor o ofal mewn lleoliadau cymunedol yn golygu bod problem yn y maes gofal sylfaenol. Wrth ymateb i hyn, cydnabu Andy Swinburn a Colin Dennis y galwadau cynyddol sy'n wynebu gofal sylfaenol oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio ac anghydraddoldebau iechyd. Yn eu barn nhw, fodd bynnag, nid methiant y system oedd hyn ond esblygiad naturiol y bu'r gwasanaeth ambiwlans yn helpu i'w reoli drwy frysbenneu o bell a defnyddio technoleg.

**30.** Yn olaf, gofynnwn ni i'r Ymddiriedolaeth am ei hymgysylltiad â'r cyhoedd. Dywedodd Jason Killens wrthym fod addysgu'r cyhoedd ynghylch pryd i ffonio 999 yn heriol oherwydd bod canfyddiadau o argyfyngau yn amrywio'n fawr ymhlith unigolion. Dywedodd fod yr Ymddiriedolaeth, yn hytrach nag annog pobl i beidio â gwneud galwadau amhriodol, yn canolbwyntio bellach ar reoli a brysennu pob cais a ddaw i mewn yn effeithlon. Y neges nawr, meddai, yw "cysylltwch â ni a gadewch i ni ei ddatrys".

### Ymateb i Ddigwyddiadau Mawr

---

**31.** Buom yn trafod parodrwydd Gwasanaeth Ambiwylans Cymru i ddarparu ymateb sifil wrth gefn pe bai digwyddiad mawr fel ymosodiad Arena Manceinion yn codi, yn ogystal â chynnal parhad ei fusnes ar yr un pryd. Dywedodd Jason Killens wrthym fod gan y Gwasanaeth gynlluniau ymateb ar gyfer digwyddiadau mawr a oedd yn cael eu profi'n rheolaidd yn fewnol a gyda phartneriaid.

**32.** Roedd yn glir, pe bai digwyddiad tebyg i ymosodiad Arena Manceinion yn codi, y byddai'n cael effaith ar wasanaethau craidd. Fodd bynnag, cadarnhaodd fod cynlluniau ar waith i reoli hynny mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

**33.** Aeth ymlaen i ddweud bod y Gwasanaeth wrthi'n cwblhau ei asesiad o'r argymhellion a gododd o ymchwiliad Arena Manceinion, ac y byddai'n cyflwyno achos busnes maes o law a fydd yn gweld angen am rywfaint o fuddsoddiad er mwyn gallu bodloni argymhellion ymchwiliad Arena Manceinion yn llawn. Roedd y sefyllfa honno, meddai, yn gyson gyda'r gwasanaethau ambiwlans ar draws gweddill y DU.

## 3. Pwysau systemig

Yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig, mae'r Ymddiriedolaeth yn datgan mai'r prif fater i'r Gwasanaeth Meddygol Brys yw colli capasiti, yn enwedig oriau a gollir wrth drosglwyddo cleifion i'r ysbyty, ac er bod hyn yn lleihau, mae'n parhau i fod yn eithafol.

**34.** Dywedodd Jason Killens wrthym fod effaith y pandemig yn ddwys ar y pryd, ac nad oedd y gwasanaeth wedi dychwelyd i'r cyflwr cyn y pandemig eto. Dywedodd mai'r newid unigol mwyaf ers y pandemig oedd effaith y pwysau ar draws gofal brys ac argyfwng:

*"(...) pre pandemic, we were seeing something in the order of 6,000 or 8,000 hours' worth of emergency ambulance production lost per month. That's now at 25,000 to 30,000, and has been sustained for many, many months and indeed across a couple of years."*

**35.** Dywedodd nad diffyg ambiwlansys oedd gwraidd yr achosion o oedi yn amseroedd ymateb ambiwlansys, ond diffyg ambiwlansys oherwydd arosiadau hir mewn adrannau brys:

*"(...) we're losing something in the order of 20 per cent to 25 per cent of our entire fleet capacity every month as a result of the pressure right across the urgent and emergency care system."*

**36.** Dywedodd nad oedd y broblem hon yn unigryw i Gymru.

**37.** Dywedodd wrthym fod oedi yn cael ei achosi gan broblemau llif cleifion drwy ysbytai, yn enwedig problemau mewn gofal cymdeithasol i oedolion sy'n atal cleifion rhag cael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned. Ar unrhyw un adeg, mae rhwng 1200 a 1500 o gleifion yng Nghymru yn dal mewn gwelyau ysbyty ar hyn o bryd er eu bod yn glinigol ffit i'w rhyddhau, gan arwain at lai o alluoedd swyddogaethol ac aros yn yr ysbyty am gyfnod estynedig<sup>2</sup>.

**38.** Yn ei farn ef, nid rhagor o ambiwlansys oedd yr ateb. Yn hytrach, ni wneir y defnydd gorau o'r fflyd bresennol oherwydd amseroedd trosglwyddo estynedig mewn ysbytai. Pe bai ambiwlansys yn gallu trosglwyddo cleifion yn gyflymach, meddai, byddent yn ateb y galw yn fwy effeithiol. Bwriad nod y gwasanaeth o reoli rhagor o gleifion yn y gymuned oedd lleihau'r angen i gludo cleifion i'r ysbyty, a thrwy hynny ryddhau adnoddau i ymateb i argyfyngau sy'n peryglu bywyd.

**39.** Yn gysylltiedig â hyn, dywedodd Colin Dennis wrthym y byddai criwiau ambiwlans, bum mlynedd yn ôl, wedi gweld rhwng pump ac wyth claf ar bob shifft yn rheolaidd, a'u bod, heddiw, yn gweld un, neu efallai ddau o bryd i'w gilydd. Dywedodd fod hyn yn tynnu sylw at un o'r anawsterau mwyaf yr oedd y gwasanaeth yn ei wynebu o ran llif cleifion o fewn y system iechyd a gofal yn ehangach.

**40.** Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym fod optimistiaeth ofalus ar gyfer gwella gwasanaethau ambiwlans trwy well hyfforddiant, technoleg a gofal cymunedol, er bod problemau llif mewn ysbytai a materion gofal cymdeithasol yn

---

<sup>2</sup> [Oedi yn achos Llwybrau Gofal](#), Llywodraeth Cymru



cyflwyno heriau parhaus. Ar y pwynt hwn, dywedodd Jason Killens fod angen datrysiadau ar draws y system gyfan. O gynyddu nifer yr ambiwlansys, gallai hynny waethygu'r broblem, drwy greu ciwiau mwy mewn adrannau brys. Yn hytrach, roedd y datrysiad yn ymwneud â gweithredu'n wahanol a gwella llif cyffredinol systemau ysbytai a gofal.

**41.** Gofynnwn ni i'r Ymddiriedolaeth sut roedd yn ymwneud â dylanwadu ar y systemau gofal cyffredinol hynny, ac a oedd ei llais yn cael ei glywed. Dywedodd Jason Killens wrthym fod y gwasanaeth ambiwlans bellach yn cael ei gynrychioli ar y rhan fwyaf o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (ond nid Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus) a'i fod yn cydweithio â byrddau iechyd a gwasanaethau eraill i fynd i'r afael ag anghenion lleol. Dywedodd eu bod yn ceisio dylanwadu ar lif cleifion a phrosesau rhyddhau a'u gwella, drwy'r partneriaethau hyn.

### Diogelwch cleifion

---

**42.** Fe wnaethom holi'r Ymddiriedolaeth i ba raddau yr oedd oedi hir gan ambiwlansys yn peryglu diogelwch cleifion. Cyfeiriodd Jason Killens at dystiolaeth gan Gymdeithas y Prif Weithredwyr Ambiwllansys yn ogystal ag adroddiadau o bob rhan o Gymru yn dangos niwed y gellid ei osgoi, gan gynnwys niwed cymedrol neu ddifrifol neu farwolaeth, oherwydd oedi wrth ymateb a throsglwyddo. Dywedodd wrthym:

*"something like one in 10 patients is subject to some level of moderate or severe harm or death associated with a response delay or a handover delay. So, it is clear that harm is occurring."*

**43.** Dywedodd Colin Dennis fod y Bwrdd yn ymwybodol iawn o lefel y niwed y gellid ei osgoi a'i fod yn adolygu adroddiadau manwl ym mhob cyfarfod. Dywedodd fod y swyddogion anweithredol yn cwestiynu'n gyson a oedd pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i leihau'r niwed hwn.

**44.** Buom hefyd yn trafod effaith amseroedd ymateb ar ffigurau canslo ambiwlansys. Cafodd bron i 10,000 o ambiwlansys eu canslo gan gleifion ym mis Rhagfyr 2023; a gofynnwn ni i'r gwasanaeth nodi ei ddealltwriaeth o'r rhesymau dros ganslo.

**45.** Dywedodd Jason Killens wrthym fod tua 140 o ambiwlansys brys, ar ei uchaf, yn gweithredu yng Nghymru. Roedd hyn, meddai, yn adnodd eithaf prin, yn enwedig o ystyried y pwysau ar draws gweddill y system iechyd a gofal cymdeithasol. Dywedodd fod nifer o resymau dros y ffigur o tua 10,000 y mis o

achosion o ganslo, gan gynnwys cleifion yn penderfynu eu cludo eu hunain neu gan fod ffyrdd amgen o gael gafael ar ofal oherwydd arosiadau estynedig. Yn ogystal, gallai rhai gael eu canslo o ganlyniad i alwadau dyblyg neu gynlluniau rheoli a roddwyd ar waith gan Wasanaeth Ambiwylans Cymru. Mewn achosion eraill, efallai bod y claf wedi gwella a heb fod angen ambiwlans mwyach.

**46.** Clywsom hefyd fod criwiau ambiwlans yn gweld llai o gleifion fesul shift nag mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd oedi mewn adrannau brys, a bod hyn wedi cael effaith ar y gyfradd ganslo wrth i gleifion benderfynu peidio ag aros am yr ambiwlans.

## 4. Cludiant Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys (NEPTS)

Mae'r Gwasanaeth Cludiant Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys (NEPTS) ar gael i gleifion ag angen meddygol penodol sydd angen mynd i apwyntiadau meddygol nad ydynt yn rhai brys mewn clinigau, ysbytai a chanolfannau dydd.

**47.** Yng Nghynllun 2024-27, dywed yr Ymddiriedolaeth bod NEPTS yn weddol sefydlog ac wedi gwneud cynnydd da drwy'r Rhaglen Trawsnewid Gofal Ambiwylans, sy'n fenter strategol gyda'r nod o wella darpariaeth gwasanaethau ambiwlans ledled Cymru. Fodd bynnag, nododd y Cynllun feysydd o danberfformio ar gyfer cleifion oncoleg a dweud fod ffiniau perfformiad diwygiedig yn cael eu cyflwyno ym mis Ebrill 2024.

**48.** Fe wnaethom holi'r Ymddiriedolaeth am y cynnydd sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â thanberfformio mewn gwasanaethau oncoleg ac arenol. Roedd yn cydnabod bod y cleifion hyn yn ddibynnol ar amser a bod amser yn gritigol, gan bwysleisio pwysigrwydd gwasanaeth amserol i'r grwpiau hyn.

**49.** Dywedodd wrthym fod gwelliannau diweddar wedi'u nodi mewn gwasanaethau ar gyfer cleifion oncoleg ac arenol ac, mewn diweddariad ysgrifenedig darparwyd rhagor o wybodaeth am dueddiadau perfformiad a chynlluniau gweithredu, gan gynnwys datblygu canolbwynt trafndiaeth oncoleg cenedlaethol i oruchwylio a rheoli teithiau oncoleg. Dywedodd y disgwylir i'r canolbwynt fynd yn fyw yn ail hanner 2024.

**50.** Cyfeiriodd Jason Killens hefyd at [Adolygiad Galw a Chapasiti NEPTS](#),<sup>3</sup> a gynlluniwyd i nodi gweithgarwch a ragwelir yn y blynyddoedd i ddod a sut orau i wasanaethu hynny. Nododd yr Adolygiad ddau effeithlonrwydd mawr ar gyfer NEPTS: alinio amseroedd y mae clinigau'n barod am cleifion ag argaeledd ambiwlansys ac ail-drefnu'r Ganolfan Cludiant Nad Yw'n Frys, ac roedd gwaith bellach ar y gweill i alinio adnoddau a phatrymau sifftiau.

**51.** Yn gysylltiedig â hyn, gofynnwn ni i'r Ymddiriedolaeth sut roedd yn paratoi i fynd i'r afael ag effeithiau poblogaeth sy'n heneiddio ar y galw am NEPT. Dywedodd Jason Killens wrthym fod adolygiad strategaeth gan fyrddau iechyd, a gydlynir drwy Gyd-bwyllgor Comisiynu newydd Cymru, ar y gweill i fynd i'r afael ag anghenion y dyfodol.

**52.** Disgrifiodd hefyd y trefniadau partneriaeth a oedd ar waith mewn perthynas ag NEPTS, gan ddweud bod yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio cymysgedd o ddarpariaeth uniongyrchol ac is-gontractio i ddarparwyr fel Ambiwylans Sant Ioan Cymru. Dywedodd wrthym fod heriau unigryw yn gysylltiedig ag ardaloedd gwledig, o ran cludiant i gleifion nad oeddynt yn achosion brys, yn enwedig o ran cael gafael ar wasanaethau a oedd yn cael eu symud ymhellach oddi wrth y cleifion. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth fod darparwyr lleol yn cael eu defnyddio'n fwy helaeth mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell i ymdrin â gweithgareddau cludiant nad ydynt yn rhai brys, yn enwedig ar sail ad hoc, a bod y dull hwn yn helpu i reoli'r galw yn fwy effeithiol o'i gymharu â chanolfannau trefol, lle roedd y ddarpariaeth yn cael ei rheoli'n uniongyrchol gan yr Ymddiriedolaeth.

## 5. Materion corfforaethol

### Materion diwylliannol a heriau o ran y gweithlu

Un o'r tair blaenoriaeth allweddol yng Nghynllun Tymor Canolig 2024-27 yr Ymddiriedolaeth yw gwella'r profiad yn y gweithle i staff er mwyn eu galluogi i berfformio ar eu gorau.

Mae diweddariad ar berfformiad ac ansawdd, a ddarparwyd ym [mhapurau diweddaraf Bwrdd yr Ymddiriedolaeth](#) ar gyfer 28 Mawrth 2024, yn cynnwys metrig perfformiad allweddol ar gyfer y gweithlu ar gyfer Ionawr/Chwefror 2024. Dywed bod ymdrechion ar y gweill i wella profiad yn y gweithle a lleihau absenoldeb

---

<sup>3</sup> Roedd yr adolygiad hwn yn flaenoriaeth Cynllun yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2020/21

oherwydd salwch, ond bod cyrraedd targed yr absenoldeb oherwydd salwch yn parhau i fod yn heriol.

**53.** Dywedodd Jason Killens wrthym fod y pandemig yn parhau i effeithio ar bresenoldeb a morâl y staff, gyda chyfraddau absenoldeb yn parhau'n uchel, ac anawsterau o ran dychwelyd i lefelau staffio cyn y pandemig.

**54.** O ran absenoldebau oherwydd salwch, clywsom fod yr Ymddiriedolaeth ar ganol yr ystod o fewn sector ambiwlansys y DU, ac roedd ymdrechion i leihau cyfraddau absenoldeb yng Nghymru yn parhau, ynghyd â mynd i'r afael â'r cyflyrau hirdymor sy'n effeithio ar staff, gan gynnwys materion seicolegol a chyhyrsgerbydol.

**55.** Yn ehangach, dywedwyd wrthym fod symudiad tuag at ddeiliadaethau gyrrfa byrrach o fewn yr Ymddiriedolaeth, wedi'u dylanwadu gan newidiadau cymdeithasol ehangach a mwy o gyfleoedd i barafeddygon a gaiff eu haddysgu i lefel gradd yn y system gofal iechyd nad sydd wedi bodoli o'r blaen.

**56.** Buom yn trafod gyda'r Ymddiriedolaeth gyflwr eu cysylltiadau diwydiannol. Dywedwyd wrthym eu bod yn meithrin perthynas "dda a chryf" ag undebau llafur lluosog, er eu bod yn heriol, a bod ymgysylltiad rheolaidd ac ymdrechion cydweithredol wedi helpu i reoli gweithredoedd diwydiannol diweddar yn effeithiol.

**57.** Fe wnaethom eu holi hefyd am y materion diwylliannol sydd wedi wynebu'r Ymddiriedolaeth. Roedd yn cydnabod bod pocedi o ymddygiad gwael yn rhai o'i gweithleoedd ar draws Cymru, gan gynnwys casineb at fenywod. Dywedwyd wrthym fod adolygiad allanol o'r diwylliant wedi cadarnhau'r heriau hynny, a bod hyn wedi dechrau ar daith yn canolbwyntio ar wella diwylliant mewn sawl agwedd drwy ddulliau megis rhaglenni datblygu, rhwydweithiau cymorth, mentora gwrthdroi i arweinwyr, a mwy o gapasiti ar gyfer mynd i'r afael â chwynion. Yr honiad yw bod yr ymdrechion hyn wedi gosod yr Ymddiriedolaeth yn arweinydd ym maes diwygio diwylliannol o fewn sector ambiwlans y DU. Cafwyd rhagor o fanylion mewn [diweddariad ysgrifenedig](#).

## Cyllid ac adnoddau

Mae Atodiad 4 o Gynllun Tymor Canolig 2024-27 yr Ymddiriedolaeth yn amlinellu'r cynllun ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25.

Mae'r Cynllun yn datgan:

“We will meet our statutory financial duties in 2023/24 but have had to deliver £6m in savings. The continued impact of inflation, costs of living and volatility in energy prices as they relate to the Trust mean that the financial outlook for 2024/25 and beyond continues to be challenging”.

**58.** Fe wnaethom holi'r Ymddiriedolaeth ar ei chynllun ar gyfer cydbwysedd ariannol, gan gynnwys targed arbedion o £6.4 miliwn. Dywedodd Jason Killens wrthym fod y targed hwn yn gyson â'r flwyddyn flaenorol a bod yr Ymddiriedolaeth yn hyderus y byddai'n cael ei gyflawni trwy nifer o ffyrdd, gan gynnwys rheoli swyddi gwag mewn rolau anghlinigol ac effeithlonrwydd ym maes caffael (e.e. fflyd, tanwydd, offer).

**59.** Cadarnhaodd yr Ymddiriedolaeth nad yw darparu'r rhaglen arbedion yn cael unrhyw effaith ar y cynllun cyfalaf ac mai bach iawn fu ei heffaith ar allu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaethau sy'n wynebu'r claf, gan y cyflawnwyd yr arbedion effeithlonrwydd mewn meysydd nad ydynt yn wynebu cleifion. Cydnabu Jason Killens bod y mathau hyn o arbedion yn anoddach i'w cyflawni o flwyddyn i flwyddyn oherwydd bod bron i 80 y cant o'r gwariant ar bobl ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn glinigwyr sy'n wynebu cleifion.

## 6. Ein barn ni

**60.** Yn ôl Gwasanaeth Ambiwylans Cymru, yr her unigol fwyaf y mae'n ei hwynebu yw colli capasiti o ganlyniad i oedi wrth drosglwyddo cleifion mewn adrannau brys. Barn y gwasanaeth yw bod yr oedi hwn, sy'n cyfrif am golli bron i chwarter ei gapasiti fflyd bob mis, yn deillio o bwysau ehangach a sylweddol ar draws y system gofal iechyd gan effeithio ar amseroedd ymateb.

**61.** Er ein bod yn cydnabod bod materion systemig, megis oedi wrth drosglwyddo, argaeledd gwelyau ac oedi wrth ryddhau, yn cyfrannu at aneffeithlonrwydd ac oedi ar draws y system gofal iechyd yn gyffredinol, mae'n rhaid i Wasanaeth Ambiwylans Cymru chwarae ei ran i sicrhau ei fod yn rheoli ei adnoddau ei hun yn effeithiol, gan gynnwys staffio, argaeledd cerbydau a blaenoriaethu ymateb. O'r herwydd, mae'n hanfodol ei fod yn parhau i archwilio ei arferion a'i reolaeth ei hun.

**62.** Mae amseroedd ymateb yn bwysig. Fel y mae'r Prif Weithredwr wedi cydnabod, bydd y cyhoedd yn mesur llwyddiant Gwasanaeth Ambiwylans Cymru ar ba mor gyflym mae'n troi i fyny. Er ei fod yn dweud ei fod yn gweithio tuag at ei dargedau ymateb, mae perfformiad yn y maes hwn yn destun pryder parhaus. Ym

mis Ebrill, dim ond 45.8% o alwadau 'peryglu bywyd' a gafodd ymateb brys o fewn 8 munud yn erbyn targed o 65%. Dyma'r ail isaf o ran ymatebion erioed.

**63.** Mae amseroedd ymateb hir ac oedi wrth dosglwyddo yn peryglu diogelwch cleifion ac yn arwain at niwed y gellir ei osgoi. Mae amcangyfrifon Gwasanaeth Ambiwylans Cymru ei hun yn dweud bod 1 o bob 10 claf yn profi rhyw lefel o niwed o ganlyniad uniongyrchol i'r oedi hwn, yn amrywio o niwed cymedrol i ddifrifol neu farwolaeth.

**64.** Clywsom fod y gwasanaeth wedi cymryd nifer o gamau i liniaru effaith yr oedi hwn, gan gynnwys gweithio i leihau absenoldeb oherwydd salwch, yn ogystal â recriwtio staff ychwanegol o ganlyniad i fwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn y broses o drawsnewid ei hun o fod yn wasanaeth cludiant yn bennaf i fod yn ddarparwr gofal iechyd mwy soffistigedig yn agosach at adraf. Bwriad yr ail-leoli hwn, sy'n rhan o'i strategaeth hirdymor, yw rhyddhau'r capasiti i ymateb i'r argyfyngau hynny sy'n bygwth bywyd, sydd angen eu trosglwyddo i adran achosion brys.

**65.** Er bod y gwasanaeth yn "obeithiol" y bydd y camau y mae'n eu cymryd, yn esgor ar welliannau yn y dyfodol, yn lefel y gofal y mae'n ei ddarparu yn y gymuned, mae'n nodedig nad yw'n disgwyl gweld gwelliannau dramatig mewn cyfraddau ymatebion coch yn y tymor byr. Mae cwestiynau yma ar gyfer Gwasanaeth Ambiwylans Cymru, ei Gomisiynwyr a Llywodraeth Cymru o ran gwerth am arian y penderfyniadau ariannu hyn, yn ogystal â sut y bydd effaith yr ail-leoli hwn yn cael ei monitro a'i gwerthuso.

**66.** Nid yw'r heriau hyn yn newydd; nac ychwaith yn unigryw i Gymru. Ledled y DU, mae llywodraethau ac arweinwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn mynd i'r afael â ffyrdd o ymdopi â'r galw cynyddol ymhlith y boblogaeth. Fel y mae Gwasanaeth Ambiwylans Cymru wedi'i nodi, mae angen datrysiadau ar draws y system i fynd i'r afael â'r heriau parhaus yn llif ysbytai a gofal cymdeithasol. Mae gwaith yn y maes hwn eisoes ar y gweill ac, o ystyried ei rôl o fewn y system gofal iechyd, mae'n bwysig bod gan y gwasanaeth lais cryf yn y broses honno, a bod ei safbwyntiau a'i ddata yn cael eu defnyddio i ysgogi gwelliannau o ran darparu gwasanaethau.

**67.** I'r perwyl hwnnw, roeddem yn falch o glywed ei fod bellach yn cael ei gynrychioli ar y rhan fwyaf o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac eithrio un, a'i fod yn gweithio gyda byrddau iechyd ac eraill i fynd i'r afael ag anghenion cenedlaethol a lleol. Gan fod ei aelodaeth o'r byrddau partneriaeth rhanbarthol yn weddol newydd, byddem yn croesawu diweddariad ganddynt maes o law am ei

brofiadau o'r trefniant newydd hwn. A hynny, credwn ei bod yn bwysig cynrychioli'r gwasanaeth ar bob bwrdd partneriaeth er mwyn sicrhau bod ei lais yn cael ei glywed yn llawn.

**Argymhelliad 1.** Mae angen dybryd i wella perfformiad mewn adrannau brys er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo cleifion yn fwy amserol ac effeithlon o'r Gwasanaeth Ambiwylans i'r ysbyty. Yn gysylltiedig â hyn, mae buddsoddi mewn darpariaeth briodol o ran gofal cymdeithasol i oedolion yn elfen hanfodol o'r broses o wella llif cleifion a lleihau oedi wrth ryddhau cleifion, drwy alluogi pobl i ddychwelyd adref neu i'w cymuned leol cyn gynted â phosibl ac mor ddiogel â phosibl. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad am y cynnydd a wneir o ran gweithredu'r "Chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng", yn benodol i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo o'r ambiwlans, ac oedi wrth ryddhau oherwydd heriau capasiti wrth ddarparu gofal cymdeithasol i oedolion. Dylid gwneud hyn fel rhan o'r ymateb i'r adroddiad hwn.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru a'r Cydbwyllgor Comisiynu asesu'r targed ymatebion coch (bod 65 y cant o alwadau sy'n peryglu bywyd yn cael ymateb brys o fewn 8 munud) i roi sicrwydd ei bod yn parhau i fod yn briodol, o gofio nad yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd ers mis Gorffennaf 2020. Dylent adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn mewn 6 mis gyda'u canfyddiadau.

**Argymhelliad 3.** Dylai Gwasanaeth Ambiwylans Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Cyd-bwyllgor Comisiynu nodi sut y bydd effaith ail-leoli Gwasanaeth Ambiwylans Cymru, a fydd yn gweld newidiadau i'r ffordd y mae'n rheoli gweithgarwch ac yn cyflwyno ymyrraeth glinigol ac asesiad llawer cynharach yn nhaith y claf, yn cael ei fonitro a'i werthuso. Dylai hefyd nodi'r meini prawf y bydd yn eu defnyddio i benderfynu a yw'r agwedd hon ar y gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian. Dylid gwneud hyn ymhen 12 mis.

**Argymhelliad 4.** Dylai Gwasanaeth Ambiwylans Cymru gael ei gynrychioli ar bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a dylai fod yn gyfranogwr llawn a gweithgar. I'r perwyl hwn, dylai'r Gwasanaeth Ambiwylans:

- weithio gyda Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth GIG Cymru i sicrhau ei fod yn gallu dod yn aelod o'r un Bwrdd sy'n weddill, a dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn mewn 6 mis i roi diweddariad ar y cynnydd, ac
- ysgrifennu at y Pwyllgor hwn, ymhen deuddeg mis, gyda'i fyfyrddau ar ei gyfranogiad yn y byrddau partneriaeth rhanbarthol dros y flwyddyn ddiwethaf. Byddem yn gwerthfawrogi, yn benodol, ffocws ar sut y mae'r

gwasanaeth yn teimlo y gwrandawyd ar ei lais, a sut y mae ei wybodaeth a'i brofiad yn cael eu defnyddio i ysgogi gwelliannau o ran darparu gwasanaethau.

## Cludiant Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys (NEPTS)

**68.** Ochr yn ochr â'r gwasanaeth meddygol brys, mae cludiant cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys (NEPTS) yn adnodd hanfodol i'r cleifion hynny na allant gyrraedd na gadael eu hapwyntiadau meddygol. O'r herwydd, roeddem yn falch o glywed bod y gwasanaeth yn weddol sefydlog, ac yn gwneud cynnydd da drwy'r Rhaglen Trawsnewid Gofal Ambiwylans.

**69.** Yn fwy penodol, mae NEPTS yn chwarae rhan hanfodol wrth gludo cleifion oncoleg ac arenol. Yma, nodwn y bu rhai meysydd yn tanberfformio yn y gorffennol, a chawsom ein calonogi wrth glywed tystiolaeth am welliannau diweddar mewn gwasanaethau ar gyfer cleifion oncoleg a chleifion arenol. Rydym yn nodi'r cynlluniau sydd wedi'u rhoi ar waith, yn benodol i wella perfformiad oncoleg ymhellach, a byddem yn croesawu diweddariad maes o law ar gynnydd yn y maes hwn, gan gynnwys datblygu'r ganolfan drafnidiaeth oncoleg genedlaethol.

**Argymhelliad 5.** Dylai Gwasanaeth Ambiwylans Cymru, ymhen deuddeg mis, roi diweddariad ar gynnydd o ran ei gynlluniau i wella ei berfformiad oncoleg. Dylai hyn gynnwys asesiad o gynnydd ym mhob un o'r tri maes a nodwyd gan y Gwasanaeth Ambiwylans yn ei ddiweddariad ysgrifenedig sef

- Y buddsoddiad mewn darpariaeth cludiant oncoleg pwrpasol ychwanegol;
- Datblygu canolbwynt oncoleg cenedlaethol i oruchwylio a rheoli teithiau oncoleg; a
- Phenodi person dynodedig i ganolbwyntio ar recriwtio gyrwyr gwirfoddol ychwanegol.

**70.** Wrth edrych ymlaen, rhagwelir y bydd nifer y bobl 75 oed a hŷn yng Nghymru yn cynyddu 29.3 y cant yn y degawd nesaf. O ystyried y cynnydd tebygol yn y galw am gludiant nad yw'n gludiant brys o ganlyniad i'r boblogaeth sy'n heneiddio, cawsom ein calonogi o glywed bod camau'n cael eu cymryd i baratoi ar gyfer hyn. Byddem yn croesawu diweddariad ar gynnydd yn y maes hwn maes o law, yn ogystal â diweddariad ar y gwaith effeithlonrwydd a nodwyd fel rhan o'r adolygiad o alw a chapasiti.



**Argymhelliad 6.** Ymhen deuddeg mis, dylai Gwasanaeth Ambiwllans Cymru roi diweddariad ar gynnydd o ran:

- yr adolygiad strategaeth ar gyfer cludiant cleifion nad ydynt yn rhai brys, gan gynnwys unrhyw ymateb gan y gwasanaeth i ganlyniadau a bwriadau comisiynu yr adolygiad hwnnw, a'r
- adolygiad o alw a chapasiti, gan gynnwys yr arbedion effeithlonrwydd a nodwyd ar gyfer y gwasanaeth cludiant cleifion nad ydynt yn rhai brys a'r gwaith sydd ar y gweill i'w weithredu.

## Materion corfforaethol

**71.** Mae cyfraddau absenoldeb staff, ar ôl Covid, yn parhau i fod yn her i Wasanaeth Ambiwllans Cymru, sydd â'r cyfraddau absenoldeb staff uchaf yn y GIG yng Nghymru. Nodwn fod ymdrechion i leihau cyfraddau absenoldeb salwch tymor byr yn parhau, ac i fynd i'r afael â chyflyrau eraill, tymor hwy sy'n effeithio ar staff, gan gynnwys materion seicolegol, yn ogystal â phroblemau cyhyrsgerberbydol sy'n gysylltiedig â chyflawni rôl gorfforol iawn.

**72.** Mewn perthynas â'r materion ymddygiadol sydd wedi'u nodi mewn rhannau o Wasanaeth Ambiwllans Cymru, mae'r rhain yn faterion sy'n peri pryder i ni. Mae gan bawb yr hawl i deimlo'n ddiogel yn y gwaith ac, i'r perwyl hwnnw, rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd i nodi'r problemau a gwella'r diwylliant. Hoffem barhau i adolygu'r mater hwn, a dychwelyd ato ar adeg briodol yn y dyfodol i gael diweddariad ar gynnydd gyda'r rhaglen o welliannau diwylliannol.

**Argymhelliad 7.** Ymhen deuddeg mis, dylai Gwasanaeth Ambiwllans Cymru roi diweddariad ar gynnydd o ran ei raglen o welliannau ar gyfer diwylliant ei weithle.